Dilynwch ni yn ein cenhadaeth i

Cynorthwyo yn y broses o ddatblygiad moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pobl ifanc, er mwyn sicrhau pontio llyfn i fywyd oedolyn a'i gyfrifoldebau.

www.bgc.wales

bgc

Boys and Girls Clubs of Wales

Clybiau Bechgyn a Merched Cymru

# Gwaith Ieuenctid

charity no: 1009142



# Cyfleon

## CHWARAEON

Mae CBM Cymru yn darparu rhaglen gynhwysfawr o chwaraeon dan do ac awyr agored i aelodau sydd yn heriol ac yn hwyl i bobl ifanc â'r nod o gynyddu cyfranogiad person ifanc mewn ffordd o fyw mwy iach.

## RHYNGWLADOL

Mae CBM Cymru yn falch o allu cynnig y cyfle i bobl ifanc gyfranogi mewn taith gyfnewid ieuenctid sefydledig gyda'n partneriaid o ardal Stuttgart yn yr Almaen. Mae'r bobl ifanc yn cael y profiad o ddiwylliannau a gweithgareddau gwahanol a chreu cyfeillion parhaol.

## HYFFORDDIANT

Mae CBM Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr hyfforddi eraill i gynnig hyfforddiant mewn Gwaith Ieuenctid (Lefelau 2 a 3).
Diogelu, Cymorth Cyntaf, Arwain Chwaraeon a Dyfarniadau Chwaraeon y Corff Llywodraethu Cenedlaethol.

## GWAITH IEUENCTID

Mae CBM Cymru yn ymroddedig i gefnogi pobl ifanc i gyrraedd eu llawn botensial. Mae clwb sy'n cael ei redeg yn dda yn darparu lle diogel i bobl ifanc gwrdd, cymdeithasu ac integreiddio gyda ffrindiau.

## GWIRFODDOLI

Mae CBM Cymru yn dibynnu ar haelioni ac ymrwymiad ei wirfoddolwyr i gefnogi ein clybiau a'n rhaglen weithgareddau.

# Chwarae'r GÊM

Mae CBM Cymru yn cydnabod fod chwaraeon yn effeithiol o ran ysgogi pobl ifanc i gymryd rhan gweithredol yn rhaglen y Sefydliad.

Rydym yn cefnogi ac yn annog pobl ifanc i ddyfod yn aelodau cyfrifol a gwerthfawr o'u cymunedau.



# Amdanom NI

Mae Clybiau Bechgyn a Merched Cymru (CBM Cymru) yn Sefydliad Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol a sefydlwyd yn y 1920au cynnar yng Nghymoedd glofaol De Cymru. Clwb Bechgyn Treharris oedd y clwb cyntaf i'w agor ble y byddai bechgyn ifanc o lowyr yn cael cyfle i hamddena a mwynhau gweithgareddau cymdeithasol ar ôl yr oriau hir o waith yn y pwll glo lleol.

Erbyn heddiw mae CBM Cymru yn parhau i gynnig cyfleoedd a chefnogaeth i bobl ifanc mewn Clybiau Bechgyn a Merched traddodiadol, clybiau ieuenctid a chlybiau chwaraeon ledled Cymru.



# Dylanwad

Mae gwaith CBM Cymru wedi cael effaith ar bobl ifanc sydd gan fwyaf yn preswylio yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru ers dros 85 o flynyddoedd.

Erbyn heddiw mae gan CBM Cymru dros 3,000 o wirfoddolwyr hyfforddedig sy'n darparu cyfraniad anfesuradwy i gymunedau dan anfantais yng Nghymru.

Rydym yn darparu hyfforddiant a gwasanaeth o ansawdd sy'n galluogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial a'u hunan werth gan gynyddu eu cyflogadwyedd hefyd.

Tîm bach ond effeithiol o staff sy'n gweithio i CBM Cymru ar hyn o bryd, gan gefnogi gwaith eithriadol ein gwirfoddolwyr a chynnig cefnogaeth ychwanegol a chyfleoedd yn ein cenhadaeth.